# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 31 Mai 2005

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon*

**Sandy Mewies (Delyn):** Faint o arian y Cynulliad sy'n ymwneud yn benodol â phortffolio'r Gweinidog a glustnodwyd i sir y Fflint ers mis Mai 2004. (WAQ43208)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Brynle Williams (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar faint o arian sydd ar gael ar gyfer y bont gerbydau arfaethedig ar Ffordd Gyswllt Gymunedol Lôn Pen Lan yr ASS a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y dyddiad cwblhau disgwyliedig. (WAQ43198)

**Sandy Mewies (Delyn):** Faint o arian y Cynulliad sy'n ymwneud yn benodol â phortffolio'r Gweinidog a glustnodwyd i sir y Fflint ers mis Mai 2004. (WAQ432012)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Sut yr ariennir yr uned ar gyfer plant ag anghenion arbennig yn Ysgol Gynradd Ty^ Aron yn Nolgellau; pa gyfran o'r arian, os o gwbl, a ddaw o Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Gwynedd a pha gyfran a ddaw o Adran Addysg yr Awdurdod Lleol. (WAQ43194)

**Janet Ryder (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn ymwneud â'r gostyngiad arfaethedig yng nghyflogau gweinyddesau meithrin a chynorthwywyr dosbarth ym Mro Morgannwg. (WAQ43199)

**Janet Ryder (Gogledd Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael yn ddiweddar o ran y gostyngiad arfaethedig yng nghyflogau gweinyddesau meithrin a chynorthwywyr dosbarth ym Mro Morgannwg. (WAQ43200)

**Janet Ryder (Gogledd Cymru):** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn bwriadu eu cymryd mewn perthynas â'r gostyngiad arfaethedig yng nghyflogau gweinyddesau meithrin a chynorthwywyr dosbarth ym Mro Morgannwg. (WAQ43201)

**Sandy Mewies (Delyn):** Faint o arian y Cynulliad sy’n ymwneud yn benodol â phortffolio’r Gweinidog a glustnodwyd i sir y Fflint ers mis Mai 2004. (WAQ432011)

## *Gofyn i’r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Sandy Mewies (Delyn):** Faint o arian y Cynulliad sy’n ymwneud yn benodol â phortffolio’r Gweinidog a glustnodwyd ar gyfer sir y Fflint ers mis Mai 2004. (WAQ432010)

**Leanne Wood (Canol De Cymru):** A yw’n bolisi gan y Gweinidog y dylai Asiantaeth yr Amgylchedd erlyn llygrwyr sy’n achosi niwed i’r amgylchedd waeth beth fo’u statws cyfreithiol. (WAQ43202)

**Leanne Wood (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar rôl Asiantaeth yr Amgylchedd o ran erlyn llygrwyr sydd ag amddiffyniad posibl o imiwnedd y Goron. (WAQ43203)

**Leanne Wood (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gymryd camau i sicrhau bod pob llwybr cyfreithiol sydd ar agor iddo yn cael ei ddefnyddio gan yr asiantaethau perthnasol er mwyn erlyn llygrwyr honedig. (WAQ43204)

**Leanne Wood (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y digwyddiad o lygru a gofnodwyd yn afon Elái ar 8 Mai 2005. (WAQ43205)

## *Gofyn i’r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Leanne Wood (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar galedwedd cyfrifiadurol y Cynulliad sydd wedi’i ddisodli o dan gynllun cyflwyno Merlin. (WAQ43206)

**Leanne Wood (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gost y gwaith o gyflwyno Merlin, y system gyfrifiadurol newydd. (WAQ43207)

## *Gofyn i’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gynnig sbectol am ddim i bobl sy’n hawlio budd-daliadau anabledd. (WAQ43195)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gyflwyno profion llygaid am ddim i bobl sy’n hawlio budd-daliadau anabledd. (WAQ43196)

**Sandy Mewies (Delyn):** Faint o arian y Cynulliad sy’n ymwneud yn benodol â phortffolio’r

Gweinidog a glustnodwyd ar gyfer sir y Fflint ers mis Mai 2004. (WAQ43209)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio*

**Sandy Mewies (Delyn):** Faint o arian y Cynulliad sy'n ymwneud yn benodol â phortffolio'r Gweinidog a glustnodwyd ar gyfer sir y Fflint ers mis May 2004. (WAQ432013)

## *Gofyn i Gynrychiolydd Pwyllgor y T•*

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Yn dilyn yr ateb i WAQ42959, a gyflwynwyd ar 18 Mai 2005 i'w ateb gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, pwy fydd yn cael mynediad i Adeilad Newydd y Cynulliad drwy'r rhodfa uwch. (WAQ43197)